**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**24 Mawrth 2020**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Chyfarwyddwr Arweiniol GwE / Cadeirydd y Bwrdd Rheoli |
| **Testun:** | Grant Gwella Addysg 2020/21 |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1. Ceisio cymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor o ran y Grant Gwella Addysg (GGA) ar gyfer 2020/21.

1.2 Adnabod yr adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i gefnogi gweithrediad Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg (CGOA) Wrecsam.

1.3 Ni fydd cyllid GGA ar gyfer ysgolion sy'n destun pryder yn cael ei ryddhau nes bod eu cynlluniau wedi'u cymeradwyo.

**2.0 Cefndir**

2.1 Yng nghyfarfod y Cyd-Bwyllgor a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2020, penderfynwyd gohirio'r penderfyniadau a amlinellir yn adran 1 yr adroddiad hwn, a hynny er mwyn cael arweiniad gan Brif Swyddogion Gweithredol y rhanbarth ar ariannu adnoddau ychwanegol ar gyfer Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg Wrecsam. Crynhoir yr arweiniad hwn yn adran 4.1 yr adroddiad hwn, a nodir y sail yn llawn yn Atodiad 1.

2.2 Mae GwE wedi derbyn dyraniad dangosol o £27,103,164 ar gyfer y Grant Gwella Addysg (GGA) yn 2020/21. Mae hyn yn gynnydd o ran arian parod o £524,893 o gymharu â 2019/20.

2.3 Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru bod y GGA ar gyfer 2020/21 yn cynnwys cynnydd o £2.5m (Cymru gyfan) ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn oddeutu £560,000 i GwE.

2.4 Mae'r amodau a'r telerau presennol (2019/20) yn nodi bod Ymgynghorwyr Her yn cynnig cefnogaeth a her i ysgolion er mwyn sicrhau bod eu cynlluniau datblygu ysgol yn adlewyrchiad priodol o'u taith tuag at welliant a blaenoriaethau lleol.

## 3.0 Ystyriaethau

3.1 Cynigir bod y proffil gwariant ar gyfer 2020/21 yn aros fel un 2019/20.

3.2 Mae angen adnoddau ychwanegol (gan GwE) fel rhan o Gynllun Gweithredu Ôl-Arolwg Wrecsam. Amcan bris hyn yw oddeutu £303,450 a fydd yn cyfrannu at:

- Yr Arweinydd Strategol yn cefnogi'r Arweinydd Craidd
- Uwch Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Ysgol ar gyfer ysgolion categori statudol
- Cymorth craidd unigryw a phellach i ysgolion categori statudol:
    - Mathemateg x3 diwrnod yr wythnos yn cynyddu i 5 diwrnod yr wythnos yn ystod tymor yr Haf
    - Saesneg cyfwerth ag un diwrnod yr wythnos
    - Gwyddoniaeth cyfwerth ag un diwrnod yr wythnos
- Cymorth unigryw a phellach er mwyn cefnogi ysgolion efo strategaethau i wella'r ddarpariaeth ar gyfer:
    - Disgyblion bregus
    - Mwy Abl a Thalentog
- Datblygu a chyflwyno rhaglen hyfforddi unigryw i uwch arweinwyr mewn 6 ysgol nad ydynt mewn categori [ac o bosib, i garfan o arweinwyr canol a nodwyd].

3.3 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor ystyried ffynhonnell yr adnodd ychwanegol er mwyn ariannu'r gost ychwanegol hon.

3.4 Dyma'r opsiynau i'w hystyried:

3.4.1 Opsiwn 1: Ariannu'n llawn o'r GGA drwy ail flaenoriaethu gwariant presennol y GGA.
3.4.2 Opsiwn 2: Ariannu'n rhannol o'r GGA drwy ail flaenoriaethu gwariant presennol y GGA.
3.4.3 Opsiwn 3: Peidio ag ariannu o'r GGA, Wrecsam i ariannu eu hunain.

Byddai'r trefniadau dros gyfnod o ddwy flynedd, ar y mwyaf, i gefnogi Wrecsam.

3.5 Nodwyd bod angen cryfhau defnydd ysgolion o'r Grant Gwella Addysg yn 2020/21.

## 4.0 Argymhelliad

4.1 <u>Argymhelliad 1:</u>

3.4.2 yw'r opsiwn a ffafrir o ran ariannu'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer CGÔA Wrecsam. Y drefn arfaethedig ar gyfer y cyllid yw:

Rhannu'r £300K dair ffordd drwy ail broffilio'r GGA:

- Wrecsam i gyfrannu £100k (nid o'r grant GGA Cyfnod Sylfaen ychwanegol).
- Y 5 ALl arall i gyfrannu £100k wedi'i rannu yn ôl canran dosbarthiad y gyllideb graidd.
- GwE i gyfrannu £100k.

Ni fydd canlyniadau sylweddol drwy ail leoli y 100K o fewn adnoddau GwE. Daw cyfraniad GwE o dair ffynhonnell:

1. Lleihau'r cymorth i ysgolion melyn a gwyrdd o hanner diwrnod.
2. Lleihau'n fwriadol ehangder yr hyfforddiant a gynigir.
3. Ail siapio ein pot comisiynu uniongyrchol.

4.2 Argymhelliad 2:

Bod y proffil gwariant ar gyfer 2020/21 yn aros fel un 2019/20, ond ystyried penderfyniad y Cyd-bwyllgor ar argymhelliad 1; gyda Bwrdd Rheoli GwE yn cytuno ar ddosbarthiad balans y cynnydd o ran arian parod (unwaith y daw'r amodau a'r telerau i law).

4.3 Argymhelliad 3:

Ni fydd cyllid GGA ar gyfer ysgolion sy'n destun pryder yn cael ei ryddhau nes bod eu cynllun wedi'i gymeradwyo.

## 5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Fel yr amlinellir uchod.

## 6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

## 7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

## 8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

8.1 Bu ymgynghori â Bwrdd Rheoli GwE ac mae'r Bwrdd wedi gofyn am benderfyniad gan y Cyd-bwyllgor. Yng nghyfarfod y Cyd-Bwyllgor a gynhaliwyd ar 26 Chwefror, 2020 penderfynwyd gohirio'r penderfyniad, a hynny er mwyn cael arweiniad gan Brif Weithredwyr y rhanbarth.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Nodaf mai ail-flaenoriaethu cyllid presennol sydd dan sylw yma yn hytrach na chais am gyllid ychwanegol. Nodaf hefyd fod yr argymhelliad yn darparu'n benodol na fydd defnydd o'r GGA ychwanegol Cyfnod Sylfaen i'r pwrpas hwn.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Yn gyffredinol, rhaid i'r Cydbwyllgor benderfynu ar ei flaenoriaethau o fewn yr adnoddau ariannol sydd ar gael. Yn yr achos hwn, rhaid i'r Cydbwyllgor gytuno ar ffynhonnell yr adnoddau (tua £300k o wariant GGA GwE) er mwyn ariannu rhan o Gynllun Gweithredu Ôl-Arolwg Wrecsam.

Mae'r adroddiad yn cynnig ffordd ymlaen trwy ail-flaenoriaethu £300,000 o’r gwariant GGA arfaethedig, wedi'i rannu 3 ffordd: £100k o ddyraniad cyffredinol Wrecsam o’r grant, £100k o ddyraniadau'r 5 ALl arall, a £100k drwy ‘liflinio’ gan GwE. Ni fydd unrhyw ateb ‘delfrydol’ sy’n addas i bob parti, ond mae cydweithio’n gofyn am gyfaddawdu gan bartneriaid rhanbarthol ac rwy’n cefnogi’r datrysiad a gynhigir.

**Atodiad 1**

**Adroddiad ar gais Prif Swyddogion Gweithredol Gogledd Cymru ar**

**Sefyllfa Gyllidebol y GGA**

Bwriad yr adroddiad yw helpu i gefnogi Wrecsam fel ateb brys un-tro. Ni ddylid gweld bod hyn yn gosod cynsail.

Nid oedd hyn, ac nid ydyw hyn yn alwad am gyllid ychwanegol, ond mae a wnelo ag ail flaenoriaethu cyllid GGA presennol i gefnogi grŵp o ysgolion sy'n destun pryder ac sydd yn ALl Wrecsam, awdurdod sydd yntau yng nghategori dilyniant Estyn. Byddai'r cyllid ychwanegol hwn yn helpu i gyflymu gwelliannau yn yr ysgolion hynny, a mynd i'r afael â Chynllun Gweithredu Ôl-Arolwg (CGOA) Wrecsam.

Daeth Prif Swyddogion Gweithredol AauLl Gogledd Cymru i'r casgliad y dylai blaenoriaethu'r Grant Gwella Addysg fod wedi bod yn argymhelliad gan y Bwrdd Rheoli i'r Cyd-bwyllgor.

**Risg 1**
Nid yw'r cyllid sy'n cael ei ddal gan yr AauLl yn bodloni gofynion y GGA fel y'u gosodir yn Atodlen 1 amodau'r GGA.

**Risg 2**

| **Grant Gwella Addysg 2020/21 (dangosol)** | **Môn** | **Gwynedd** | **Conwy** | **Sir Ddinbych** | **Sir y Fflint** | **Wrecsam** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| £ Dirprwyo Glân i Ysgolion (arian parod yn ôl fformiwla) | £2,435,409 | £4,090,121 | £3,507,829 | £3,696,775 | £5,144,607 | £4,577,084 | £23,451,825 |
| **% Cyfanswm Dirprwyo Glân i Ysgolion** | **76.26%** | **73.48%** | **78.04%** | **86.95%** | **80.41%** | **80.52%** | **79.26%** |
| **£ Cyfanswm Darpariaeth ALl** | **£658,085** | **£1,265,350** | **£822,820** | **£404,742** | **£1,018,951** | **£873,236** | **£5,043,184** |
| **% Cyfanswm Darpariaeth ALl** | **20.61%** | **22.73%** | **18.31%** | **9.52%** | **15.93%** | **15.36%** | **17.04%** |
| **£ Cyfanswm GwE** | **£ 100,168** | **£ 210,948** | **£ 164,385** | **£ 150,037** | **£ 234,652** | **£ 234,245** | **£ 1,094,435** |
| **£ Cyfanswm GwE** | **3.14%** | **3.79%** | **3.66%** | **3.53%** | **3.67%** | **4.12%** | **3.70%** |

O'r tabl uchod, mae'n glir mai canran fechan yn unig o'r Grant Gwella Addysg sy'n cael ei dal yn 'ganolog' gan GwE. Mae hyn yn cyfyngu'n sylweddol ar allu'r Gwasanaeth i wella ysgolion.

**Risg 3**
Mae GwE yn bodloni'n llawn angen Wrecsam, sydd yn gadael rhyw ddwy ran o dair o'r cyllid yn weddill i fodloni anghenion y Rhanbarth, oddeutu £600k. Effaith hyn fydd llai o gymorth i'r ysgolion hynny sy'n destun pryder a'r rheini sydd eisoes yn destun pryder ac mewn categori statudol Estyn.

**Risg 4**
Mae GwE, mewn trafodaeth â Wrecsam, yn lleihau ei gymorth er mwyn lliniaru Risg 3, ond gall hyn gael effaith negyddol ar yr angen am welliant carlam yn ysgolion Wrecsam a chyflawni CGÔA Wrecsam.

**Risg 5**
Trwy beidio â chefnogi Wrecsam yn yr achos hwn, rydym yn tanseilio'r cysyniad o Weithio'n Rhanbarthol.

**Casgliad ac awgrymu ffordd ymlaen**

1. Rhannu'r £300k yn dair ffordd drwy ail broffilio'r GGA:
    - Wrecsam i gyfrannu £100k (nid o'r grant GGA Cyfnod Sylfaen ychwanegol).
    - Y 5 ALl arall i gyfrannu £100k wedi'i rannu yn ôl canran dosbarthiad y gyllideb graidd.
    - GwE i gyfrannu £100k.

**Atodiad 1**

**ATODLEN 1**
**Pwrpas, Llywodraethu a Monitro**

Atodlen 1a Llywodraethu a Monitro
Pwrpas y Cyllid hwn a ddyrennir i chi ar ran Consortiwm Canolbarth y De yw cefnogi'r consortiwm rhanbarthol a'r awdurdodau cysylltiedig o fewn y consortiwm i gyflawni ein dyheadau a'n blaenoriaethau ar gyfer ysgolion ac addysg fel yr amlinellir yn Uchelgeisiol ac yn Dysgu yn ein strategaeth genedlaethol, Ffyniant i Bawb, a'n cynllun gweithredu ar gyfer addysg, *Cenhadaeth ein Cenedl.*

*Mae Cenhadaeth ein Cenedl* yn amlinellu sut y bydd y system ysgolion yn symud ymlaen yn 2017-21, gan sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn cael ei weithredu gyda ffocws ar arweinyddiaeth, dysgu proffesiynol, rhagoriaeth a chydraddoldeb mewn system sy'n hunan wella. Mae'r cynllun gweithredu yn canolbwyntio ar godi safonau i bawb, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad a chyflwyno system addysg sy'n destun hyder a balchder cenedlaethol, sef ein gobeithion cyffredinol ar gyfer *Cenhadaeth ein Cenedl*.

Mae gan gonsortia rhanbarthol yng Nghymru, a'u hawdurdodau lleol cysylltiedig, rôl allweddol wrth wella deilliannau addysgol dysgwyr yng Nghymru a gwireddu'r diwygio addysgol sylweddol.

Mae'r Llythyr Cyllid a roddwyd i Reolwyr Gyfarwyddwyr y Consortia, Cyfarwyddwyr Arweiniol yr Awdurdodau Lleol a Swyddogion Adran 151 yr Awdurdodau ar 22 Chwefror, 2019, wedi'i ffurfioli mewn dau ddyfarniad grant ffurfiol i'r consortia rhanbarthol, sef y Grant Datblygu Disgyblion a'r Dyfarniad Cyllid hwn.

Mae'r Llythyr Cyllid yn amlinellu ein blaenoriaethau cenedlaethol trosfwaol am 2019-20, a sut y dylid darparu'r rhain yng nghyd-destun *Cenhadaeth ein Cenedl*. Rhaid defnyddio’r cyllid i helpu cyflawni ein blaenoriaethau addysg cenedlaethol, ac wrth wraidd hynny y mae cwricwlwm gweddnewidiol a phwyslais ar bedwar amcan galluogi allweddol y bydd eich camau gweithredu yn eu cefnogi:

- Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel;
- Arweinwyr ysbrydoledig yn cydweithio i godi safonau;
- Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles;
- Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella.

Cefnogir y deilliannau gan ystod o fesurau a dangosyddion perfformiad allweddol, a amlinellir yn y Cais.

Trefnir y Cyllid o gwmpas yr amodau a'r gofynion hyn:

Gofynion a disgwyliadau Polisi
Nodir y rhain yn Atodlen Un, ac yn Atodiad B y llythyr cyllid. Byddwn yn parhau i drafod ac adolygu'r disgwyliadau ar gyfer pob maes polisi drwy ein cyfarfodydd rheolaidd ar y cyd, a byddwn yn adolygu hyn yn gyson wedi hynny, ar fformat adrodd cytûn, gan gytuno ar amlder y cylch.

Cynaliadwyedd a chanolbwyntio ar y dinesydd
Rhaid i'r mentrau a gyllidir gan y grant fod yn gynaliadwy, yn canolbwyntio ar y dysgwr, ac yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol
Mae'r disgwyliadau a nodir yn y 'Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol' yr un fath, a dylid parhau i'w harddel. Defnyddir strwythurau llywodraethu y model cenedlaethol hefyd i fonitro cynnydd a hynny, ble bynnag fo'n briodol, i ddangos tystiolaeth o'r gofynion Cyllido.

Consortia yn gweithio ar y cyd
Yn unol â'r disgwyliadau a nodir yn y 'Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol', bydd y Consortia yn gweithio gyda chonsortia rhanbarthol eraill yng Nghymru i fanteisio ar gyfleoedd i rannu arferion da a dysgu ar draws holl *amcanion Cenhadaeth ein Cenedl*, ac yn enwedig y rheiny sydd megis dechrau datblygu, fel lles.

Cefnogi system sy'n hunan wella
Ble'n briodol, bydd y consortia yn hwyluso'r broses o ystyried modelau clwstwr i ysgolion, darparwyr y Cyfnod Sylfaen ac UCD, a chydweithio ar draws y pedair rhanbarth, wrth benderfynu sut i ddefnyddio'r cyllid yn y ffordd fwyaf effeithiol i gefnogi gwaith gwella deilliannau i ddysgwyr.

Gweithredu'n deg
Rhaid i chi, a'r consortiwm, allu dangos y gweithredir yn deg ar draws y consortiwm a'i awdurdodau cysylltiedig wrth ddirprwyo'r Cyllid i ysgolion.

Gweithio mewn clwstwr
Ble'n briodol, gall y consortia hwyluso'r broses o ystyried modelau clwstwr i ysgolion, darparwyr y Cyfnod Sylfaen ac UCD wrth benderfynu sut i ddefnyddio cyllid yn y ffordd fwyaf effeithiol i gefnogi gwaith gwella deilliannau i ddysgwyr.

Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant a Chynlluniau Datblygu Ysgol
Bydd Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn cynnig cefnogaeth a her i ysgolion er mwyn sicrhau bod eu cynlluniau datblygu ysgol yn adlewyrchiad priodol o'u taith tuag at welliant a blaenoriaethau lleol.

Monitro ac adrodd

Nodir y gofynion monitro yn Adran 10, sydd yn egluro sut byddwn yn mynd ati i werthuso cynnydd, effaith ac ychwanegedd y Cyllid wrth gyflawni *Cenhadaeth ein Cenedl* yn erbyn y mesurau yn y Cais.

Proffil gwariant

Mae'r Llythyr Cyllid yn cadarnhau sut rydym wedi pennu eich dyraniad rhanbarthol. Wrth dderbyn y dyfarniad Cyllid hwn, rydych chi'n cytuno dyrannu cyllid yn unol â'n dyraniad o fewn goddefiant derbyniol i'w gytuno â ni.
Byddwch chi'n cyflwyno, yn ysgrifenedig, i Gyfarwyddwr Addysg Llywodraeth Cymru, unrhyw geisiadau am drosglwyddo arian rhwng llinellau'r gyllideb ac amcanion *Cenhadaeth ein Cenedl* a nodir yn y Llythyr Cyllid.

Adlewyrchir pob amrywiad wrth ddiweddaru eich adroddiadau ariannol. Gwneir taliadau, er hynny, yn unol ag Atodlen 3.

Gwerth am Arian ac ychwanegedd

Disgwylir i chi, a'r consortiwm, allu dangos tystiolaeth o ychwanegedd y Cyllid, gwerth am arian a'i effaith.
Mae hyn yn berthnasol i gyfanswm y Cyllid a gynigir yn y Dyfarniad hwn. Ar ben hynny, disgwylir tystiolaeth o ychwanegedd ac effaith yr elfennau cymorth, yn benodol, a ddarperir yn y maniffesto Codi Safonau Ysgolion ac ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu o fewn y Dyfarniad hwn.

Cynyddu cyllid i ysgolion

Wrth gynllunio gweithgarwch a gosod y Cais a'r proffil gwariant, mae'n rhaid cael tystiolaeth o ymrwymiad amlwg a dangosadwy o roi mwyafrif y cyllid i ysgolion. Bydd angen darparu sicrwydd o hyn i Lywodraeth Cymru, yn rhan o'r Cais a'r diweddariadau chwarterol. Ar gyfer yr elfen GGA rhaid cadw at ddirprwyo o leiaf 80%.

Lleihau costau gweinyddu a rheoli

Mae trefniadau'r grant yn cefnogi ymdrechion i leihau costau gweinyddu rheoli'r Cyllid. Byddwch yn dangos ac amlygu ymrwymiad i gadw gwariant lefel isel wrth reoli a gweinyddu'r Cyllid. Gellir defnyddio'r Cyllid i gefnogi costau rheoli a gweinyddu y Grant Datblygu Disgyblion.

**Amodau penodol y Cyllid ar gyfer y cyfnod yn ymwneud â'r elfen sy'n cefnogi'r Grant Gwella Addysg i Ysgolion**

GGA - Arian cyfatebol yr Awdurdod Lleol i'r consortiwm

Mae Awdurdodau Lleol yn darparu arian cyfatebol i'r Grant Gwella Addysg ar gyfer elfen Ysgolion y Cyllid. Mae lefel 2019-20 wedi'i gosod ar lefel arian cyfatebol i'r GGA ar gyfer 2017-18.

**Atodiad 2**

# Cofnodion drafft
# Cyfarfod Bwrdd Rheoli GwE 14-02-2020

**Dyddiad:** 14.02.2020

**Lleoliad:** Bryn Eirias, Bae Colwyn

**Yn bresennol:** Ian Roberts, Wrecsam (IR) (Cadeirydd); Karen Evans, Sir Ddinbych (KE); Garem Jackson, Gwynedd (GJ); Claire Homard, Sir y Fflint (CH); Rhys Howard Hughes, (RHH) Ynys Môn; Arwyn Thomas, GwE (AT); Alwyn Jones, GwE (AJ); Bethan Eleri Roberts, GwE (BER); Susan Owen Jones, GwE (SOJ);

David Jones a Debbie Teesdale, Swyddogion Cyllid, Conwy (ar gyfer eitem 4 yn unig), Anwen Gwilym, GwE (AG) (Cofnodi)

| Eitem ar yr Agenda | Nodiadau | Gweithredu a gytunwyd | Gan bwy / Pryd |
|---|---|---|---|
| 4. **GGA** | Estynnodd IR groeso i'r cyfarfod i David Jones a Debbie Teesdale, Conwy.<br><br>Yn dilyn y Bwrdd Rheoli yn cytuno i adolygu'r GGA, paratowyd y papur a gafodd ei ddosbarthu gyda'r agenda. Cafwyd crynodeb o'r papur gan AT, a chyfeiriwyd yn benodol at ystyriaethau ac argymhellion adrannau 4 a 5, yn y drefn honno. Cadarnhawyd y trafodwyd y papur a chytuno arno yn y Cyfarfod Cyllid Addysg Rhanbarthol yn gynharach yn ystod yr wythnos. | | |

| Eitem ar yr Agenda | Nodiadau | Gweithredu a gytunwyd | Gan bwy / Pryd |
|---|---|---|---|
| | Croesawyd y papur, ac roedd pawb yn gytûn y dylid ceisio cymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor i gynnal yr adolygiad.<br><br>Rhoddodd SOJ ddiweddariad ar y sefyllfa bresennol o ran y Grant Gwella Addysg ar gyfer 2020-21 - taflen wybodaeth ynghlwm.<br><br>Dywedodd AT bod angen adnoddau ychwanegol fel rhan o GGÔA Wrecsam, ac awgrymwyd defnyddio cyllid o'r GGA at y diben hwn. Roedd pawb yn gytûn y dylai'r Cyd-bwyllgor ystyried ffynhonnell y cyllid yn eu cyfarfod nesaf. Yn y cyfamser, Prif Swyddogion i drafod y mater gydag Aelodau Arweiniol a chynnig datrysiad yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor. | Eitem ar agenda'r Cyd-bwyllgor<br><br>Eitem ar agenda'r Cyd-bwyllgor | 26/02/2020 - SOJ/BER<br><br>26/02/2020 - SOJ |

Atodiad 3

# TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GWE

**Dyddiad y Cyfarfod** 26 Chwefror 2020

**PWNC**

Eitem 9: GRANT GWELLA ADDYSG 2020-2021

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd gohirio'r penderfyniad er mwyn cael arweiniad gan Brif Weithredwyr y rhanbarth ar ariannu adnoddau ychwanegol ar gyfer Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg Wrecsam ac yna bydd cyfarfod brys yn cael ei gynnal i wneud penderfyniad ar y mater.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae GwE yn derbyn dyraniad dangosol o £27,103,164 ar gyfer Grant Gwella Addysg yn 2020/21, mae hyn yn dilyn cadarnhad gan Lywodraeth Cymru fod cynnydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Disgwylir i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei chyllideb derfynol ar 25 Chwefror.

Ychwanegwyd fod amodau a’r telerau presennol yn nodi bod Ymgynghorwyr Her yn cynnig cefnogaeth a her i ysgolion i sicrhau fod cynlluniau datblygu ysgol yn adlewyrchiad priodol o’u taith at welliant a blaenoriaethau lleol.

Mae angen adnoddau ychwanegol fel rhan o Gynllun Gweithredu Ôl-arolwg Wrecsam a gofynnwyd i’r Cydbwyllgor ystyried ffynonellau adnoddau ychwanegol i ariannu’r gost ychwanegol yma.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.